Prosiect Gwyrdd
13 Awst 2013

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 06 Awst 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a nodwyd yn eich neges e-bost dyddiedig 05 Awst 2013, yn gofyn am y canlynol:

1. Unrhyw ohebiaeth rhyngoch chi a Gweinidog yr Amgylchedd mewn perthynas â'r Prosiect Gwyrdd a/neu losgi
2. Pob dogfen {a eglurwyd gennych wedi hynny i olygu "pob adroddiad"} a luniwyd gan SAC (cyhoeddedig neu fel arall) yn ymwneud â'r Prosiect Gwyrdd a/neu losgi

(Rwyf wedi rhifo'r ceisiadau i'w gwneud yn haws cyfeirio atynt)

Nodir isod fy ymatebion i'ch ceisiadau:

1. Nid oes gennym unrhyw ohebiaeth o'r fath.
2. Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais. Cyfeiriais eich cais hefyd at archwilydd penodedig y cynghorau sy'n rhan o'r Prosiect Gwyrdd h.y. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Bro Morgannwg. Er bod yr archwilydd penodedig yn ddeiliad swydd ar wahân, ac nad yw'n awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (ac felly nid oes unrhyw hawl i weld gwybodaeth a ddelir ganddo), mae'r archwilydd penodedig wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw adroddiadau sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais. Er nad yw'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais yn uniongyrchol, efallai y bydd gennych ddiddordeb yn yr adroddiad canlynol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Public_Participation_in_Waste__Recycling__English.pdf

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr wyf wedi ymdrîn â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips